Rwy'n credu ac yn gobeithio eu bod nhw wedi darganfod y profiad yn un gwerthfawr a phleserus. Rydym yn bendant wedi mwynhau darparu cefnogaeth ac agor rhai drysau iddynt."

Jenny Rowe

Prif Weithredwr, Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig

“Mae wedi bod yn anrhydedd gweithio gyda Big Voice London am ail flwyddyn. I mi, uchafbwynt y flwyddyn oedd gweld perfformiad gwefreiddiol dau o'n myfyrwyr yn rownd derfynol ymryson 'Just Rights'; amlygodd hyn pa mor wych y gall pobl ifanc ddeall a defnyddio cyfreithiau eu gwlad os ydynt yn cael yr offer i wneud hynny.

Cyn i mi ddechrau gweithio â'r prosiect, fel llawer o'n myfyrwyr, roeddwn i'n teimlo bod y gyfraith yn fyd cymharol gaeedig. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd diwethaf rwyf wedi gweld cymaint o siaradwyr yn rhoi eu hamser i rannu eu hangerdd dros fynediad at y gyfraith fel fy mod yn hynod o falch bod yn rhan o ddiwylliant a chymuned gyfreithiol mor gadarnhaol. Wrth symud ymlaen rydym angen isadeiledd cryfach i ganiatáu mynediad at fyd y gyfraith i fwy o bobl ifanc yn yr un ffordd â'n myfyrwyr ni.

Dros y flwyddyn olaf mae ein pobl ifanc, o gefndiroedd diwylliannol amrywiol ac o rannau gwahanol o Lundain, wedi gweithio â'i gilydd i greu tîm. Fel cymuned rydym wedi dysgu am gydraddoldeb a hawliau yn Ne Affrica ac yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Rwy'n gobeithio y byddwn i gyd yn teimlo cyfrifoldeb y wybodaeth a rannwyd â ni, ac y byddwn yn barod i'w ysgwyddo er mwyn gwneud y byd yn well."

Jennifer Blair

Cydlynnydd, Big Voice London

Big Voice London

Lansiwyd Big Voice London ym mis Ionawr 2011. Cysylltodd Jennifer Blair, myfyrwraig bargyfreithiol, yn wreiddiol â'r Goruchaf Lys ynglŷn â'u rhaglen allgysylltu â phobl ifanc, a datblygodd y prosiect gyda'u cyngor a'u cefnogaeth. Recriwtiodd Jennifer dîm o wirfoddolwyr ymrwymedig, aeth at ysgolion y wladwriaeth yn Llundain, gan dargedu'r rhai mewn ardaloedd â'r nifer uchaf o dlodi plant, i gasglu at ei gilydd grŵp o 40 o fyfyrwyr chweched dosbarth gyda diddordeb yn y gyfraith.

Caiff Big Voice London ei arwain gan wirfoddolwyr sydd ar y cyfan yn fyfyrwyr cyfraith ôl-raddedig sydd ag ymrwymiad i roi mynediad i ieuencid. Mae Big Voice yn unigryw yn y ffordd y mae'n mynd i'r afael yn benodol ag ymrwymo pobl ifanc â'r gyfundrefn gyfreithiol. Mae'r prosiect yn ymdrechu i rymuso myfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd ddifreintiedig drwy eu cysylltu â llunwyr polisi cyfreithiol, fel bod ganddynt lais yn ein cymdeithas.

Big Voice yn 2012

Rydym wedi gweld datblygiadau bendigedig i'r prosiect yn 2012, gan gynnwys creu cystadleuaeth ymryson hawliau dynol 'Just Rights', ble cafodd ein pobl ifanc eu paru â myfyrwyr y gyfraith i gystadlu â'i gilydd fel prif gwmsler a chwnsler iau. Caniataodd hyn i bobl ifanc oedd â dim cefndir cyfreithiol i dderbyn mentora wrth iddynt ddysgu sut i wneud dadl gyfreithiol ar lefel uchel. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad yr Arglwydd Reed a'r Goruchaf Lys am gynnal y rownd derfynol ac yn gyffrous eu bod wedi cytuno i wneud hynny eto yn 2013.

Y flwyddyn hon rydym wedi adeiladu ar ein hastudiaeth gymharol yn 2011 â De Affrica ol-apartheid, drwy ymchwilio i'r datblygiadau cyfreithiol arloesol sy'n cael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Cawsom yr anrhydedd i gymryd rhan mewn teithiau addysgol i Fangor, Belfast a Chaeredin sydd wedi rhoi syniadau gwych i ni ar gyfer ein gwaith i'r dyfodol.

Ein Myfyrwyr

Mae'r myfyrwyr yn gwneud cais i ymuno â'r prosiect ac mae cymryd rhan yn Big Voice London yn golygu ymrwymiad sylweddol o ran mynychu sesiynau wythnosol yn ystod y tymor rhwng Ionawr a Rhagfyr 2012, yn ogystal â chymryd rhan mewn teithiau ymchwil dros nos, i gyd yng nghyd-destun pwysau gwaith eu hastudiaethau yn y chweched dosbarth.

Mae cefnogaeth a chydweithrediad yr ysgolion a cholegau sy'n gweithio â ni yn hanfodol i'r prosiect, gan ei fod yn caniatáu i fyfyrwyr gael cefnogaeth a chydabyddiaeth i'w gwaith. Y flwyddyn hon mynychodd rhan helaeth o'n myfyrwyr City and Islington Sixth Form College, Hackney Community College, Mulberry School for Girls, Nower Hill high School, St Angela's & St Bonaventure's Sixth Form Centre a St Dominic's Sixth Form College.

Tri Chwyddwydr ar y Gyfundrefn Gyfreithiol

Calon ein gwaith yw canolbwyntio ar gydraddoldeb a mynediad at gyfiawnder. Mae ein myfyrwyr yn archwilio'r testunau hyn o wahanol safbwyntiau ym mhob un o'r tri grŵp.

Amrywiaeth a'r Gyfraith: archwiliwyd y rhwystrau sy'n effeithio ar fynediad at y proffesiynau cyfreithiol yn ogystal â rôl diwylliant mewn amddiffyniadau cyfreithiol. Heriwyd cysyniadau gwahaniaethu ac archwiliwyd materion megis braint, grymusrwydd a gweithredu cadarnhaol.

Asiantaeth Gyfreithiol: canolbwyntiwyd ar fynediad at y gyfraith yn dilyn diwygiadau Woolf, hawliau dynol a'r gyfundrefn gyfiawnder troseddol, gydag astudiaeth benodol ar rymoedd yr heddlu, gwrthdystiadau, atebolrwydd a'r defnydd o ataliaeth mewn dalfeydd.

Treftadaeth Gyfreithiol: edrychwyd ar effaith celf, pensaerniaeth a llenyddiaeth ar hunaniaeth gyfreithiol, archwiliwyd treftadaeth gyfreithiol amrywiol y myfyrwyr eu hunain ac effaith hawliau ieithyddol a datganoli ar hunaniaeth gyfreithiol yng Nghymru.

Yr Awduron

Y bobl ifanc gymrodd rhan yn y prosiect a gyfrannodd tuag at y papur hwn oedd:

Treftadaeth Gyfreithiol

Lota Bantic

Henna Begum

Amena Charles

Vian Hilli

Victoria Macher

Lucy Michaeloudis

Lovelace Odoi

Sultana Begum

Sabina Sultana

Y gwirfoddolwyr oedd yn ymdrin â hwyluso, cydlynu a chyfrannu at y papur hwn oedd:

Adam Muckle, Alex Cisneros, Jennifer Blair, Maleeka Bokhari a Michelle Murray.



Cydnabyddiaethau

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr ewyllys da a'r cymorth yr ydym wedi ei dderbyn yn ystod ein prosiect ac yn arbennig i Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor am eu cymorth â'r cyfieithu i'r Gymraeg.

Gwirfoddolwyr yw'r rhai sydd wedi rhoi eu hamser i wireddu'r prosiect. Cafwyd hyfforddiant hwyluso arbenigol gan EquaEd. Y tîm cydlynu oedd Alex Cisneros, Ariana Gale, Jennifer Blair a Maleeka Bokhari. Ein harweinwyr tîm oedd: Adam Muckle, Ben Mills, Dimitra Kamarinou, Esmá Komur, Frances Bennett, Lucy Rezler-Kennedy, Michelle Murray, Ruth Hennessy, Sarah Hirech, Sasha Wickham, Sophie Charles, Wendy Bremang, Zahra Afshar. Hoffem hefyd ddiolch i'n gwirfoddolwr cyfreithiol Nargees Choudhury a'n gwirfoddolwr digwyddiadau cyfreithiol Rob Patmore.

Mae Siaradwyr wedi cynnig golwg arbenigol i'r myfyrwyr am eu gwaith a'u profiad proffesiynol. Diolch i: Bernard Hogan-Howe Comisiynydd yr Heddlu Metropolitan; yr Arglwydd Reed o'r Goruchaf Lys; Adam Wagner; Tom Cleaver; Jonathan Rubin; Gwion Lewis; Glenys Roberts; Sara Mansoori; Lucy Moorman; Dr David McIlroy; Sham Qayyum; Jai Sharda; Brian Kennelly; Jennifer Agyekum; Aled Griffiths, Dr Osian Rees, Carys Aaron a Huw Pritchard o Brifysgol Bangor; y Barnwr Rhanbarth Williams o Lys Sirol Caernarfon; Meri Huws Comisiynydd y Gymraeg; Mr Ustus Roderick Evans o'r Uchel Lys; Comisiwn y Gyfraith; Emily Thornberry AS; y Farwnes Helena Kennedy CF a'r Arglwydd Kerr o'r Goruchaf Lys.

Mae llawer mwy sydd wedi cyfrannu at gyflawni'r prosiect. Hoffem ddiolch yn arbennig i: EquaEd, Sarwan Singh a City University, BPP Law School, City and Islington Sixth Form College, Hackney Community College, Mulberry School for Girls, Nower Hill high School, St Angela's & St Bonaventure's Sixth Form Centre, St Dominic's Sixth Form College, Islington Council, Kensington Unitarian Church, Gray's Inn, Paul McEvoy o Gyfreithwyr McEvoy Sheridan Solicitors, ein prif noddwr Lexis Nexis a'r Goruchaf Lys.

'Cenedl heb iaith, Cenedl heb galon'

Cyflwyniad

Ers i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ddatganoli grymoedd deddfwriaethol i Gymru rydym wedi gweld dechreuad awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig newydd.¹ Mae'n gyfnod cyffrous i gyfraith Gymreig ac mae'r iaith Gymraeg yng nghalon y datblygiadau hyn.

Mae dwy ochr i'r ddadl dros gynnwys yr iaith Gymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru. Mae un yn ddadl sydd wedi ei sylfaenu ar ymarferoldeb - ei bod yn bwysig i'r rhai sydd yn fwy rhugl yn y Gymraeg nag yn y Saesneg gael mynediad at y gyfraith a'u hawliau - ac un sydd wedi ei sylfaenu ar dreftadaeth a chydarddoldeb - bod y Gymraeg yn rhan sylfaenol o hunaniaeth Gymreig ac felly byddai gwrthod darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y gyfundrefn gyfreithiol yn anghymesur ac yn wahaniaethol.

Tra ein bod yn gwerthfawrogi bod llawer o bobl yng Nghymru sydd ddim yn siarad Cymraeg, rydym yn credu ei bod yn bwysig sylweddoli hawliau'r rhai sydd wedi brwydro dros gymaint o amser i gael cydnabyddiaeth i'w hiaith frodorol. Mae'r papur briffio hwn yn ganlyniad i ymchwiliad i safle presennol hunaniaeth gyfreithiol Gymreig, taith addysgiadol i Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor ac astudiaeth gymharol o hawliau ieithyddol yng Nghanada a De Affrica.

Crynodeb

Fel y trafodir isod, ein prif argymhellion yw:

- Dylid diwygio'r Cyfarwyddyd Ymarfer ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn achosion yn y llysoedd sifil er mwyn diddymu'r disgrisiwn i ddyfarnu costau yn erbyn siaradwr Cymraeg sydd ddim yn rhoi hysbysiad o flaen llaw o'u bwriad i wneud hynny, ond dylai holiaduron dyrannu ofyn yn glir, yn Gymraeg, os yw parti yn dymuno siarad Cymraeg;
- Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gomisiynu peilot i ymchwilio i'r opsiwn o ddefnyddio rheithgorau dwyieithog a dylai dogfennau Gwŷsio Rheithgor ofyn a yw'r rheithwyr yn gallu cymryd rhan mewn achos dwyieithog;
- Dylai mwy o isadeiledd cyfreithiol, gan gynnwys system apeliadol llawn ar gyfer achosion Cymreig, gael ei sefydlu yng Nghymru;
- Dylai cyfyngiadau ar weithwyr sy'n siarad Cymraeg yn y gweithle gael eu trin fel eu bod yn torri ffydd a hyder gan dribiwnlysoedd cyflogaeth, gan gymryd i ystyriaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- Dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fod ar gael yn Saesneg a Chymraeg; dylid datblygu dogfennau dwyieithog yn y meysydd hyn er mwyn cyfannu termau technegol Cymraeg newydd i eirfa siaradwyr Cymraeg;
- Dylai sedd yn y Goruchaf Lys gael ei chlustnodi i farnwr/es Cymreig a dylai'r Llys Apêl ystyried eistedd yng Nghymru i wrando ar achosion Cymreig arwyddocaol.

¹ Gyda rhai amrywiaethau yn y system llysoedd, yn arbennig tribiwnlysoedd, c.f. Accessible Bilingual Legislation for Wales (2012) Hughes and Davies, Statute Law Review 33(2), 103-121, t.108-109 neu'r erthygl cyfrwng Cymraeg Deddfwriaeth Hygyrch a Dwyieithog i Gymru (2012) Hughes a Davies, Statute Law Review 33(2), 122-140, t.128

Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Tra bod datganoli yn yr Alban wedi canolbwyntio ar annibyniaeth wleidyddol a Gogledd Iwerddon wedi canolbwyntio ar grefydd, mae iaith yn ganolbwyntio i hunaniaeth Gymreig. Gellir ond deall y frwydr dros gydraddoldeb ieithyddol yng nghyd-destun y gorthwrwm a wynebwyd gan siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft, roedd y Deddfau Uno yn datgan:

"all Justices... and Ministers of the Law, shall proclaim and keep the Sessions Courts...and all other Courts in the English Tongue...and all...Juries and Inquests...to be given and done in the English Tongue...henceforth no Person or Persons that use the Welsh Speech or Language, shall have or enjoy any manner Office or Fees within this Realm of England, Wales, or other the King's Dominion, upon Pain of forfeiting the same Offices or Fees" (Adran 20, Laws in Wales Act 1536).²

Nid oedd y defnydd o Gymraeg mewn ysgolion yn cael ei gefnogi, er enghraifft roedd plant oedd yn siarad Cymraeg yn cael eu curo,³ yn arbennig yn dilyn Adroddiadau Comisiynwyr yr Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru 1847, oedd yn datgan:

"The Welsh language is a vast drawback to Wales and a manifold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people. Because of their language the mass of the Welsh people are inferior to the English in every branch of practical knowledge and skill. [...] It is the language of old fashioned agriculture, of theology and of simple rustic life, while all the world about him is English."⁴

Parhaodd y gorthrymder am 400 can mlynedd. Er hynny, efallai yn bennaf oherwydd y defnydd o'r Beibl Cymraeg mewn Ysgolion Sul, erbyn 1901, roedd 50% o boblogaeth Cymru yn parhau i siarad Cymraeg ac roedd dal ardaloedd yng Nghymru ble'r oedd pobl yn siarad Cymraeg yn unig (adwaenir fel cymunedau uniaith).⁵

Fodd bynnag, yn sgil agwedd gynyddol elyniaethus i 'genedlaetholdeb' yn ystod y Rhyfeloedd Byd, mudo diwydiannol a lledaeniad y cyfryngau Saesneg drwy radio a theledu, erbyn 1991 nid oedd unrhyw gymunedau uniaith Gymraeg yn bodoli a dim ond 18.7% o'r boblogaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg.⁶ Er hynny, cynorthwyodd mudiadau angerddol dros gydraddoldeb y Gymraeg, wedi eu calonogi gyda sefydlu Cynulliad Cymru a grymoedd datganoledig, i gyflwyno'r Gymraeg i'r brif ffrwd drwy addysg, y cyfryngau a gwaith y sector gyhoeddus, sydd wedi llwyddo i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg i 20.8% yn 2001.⁷ Mae canran arwyddocaol o fyfyrwyr ysgol yng Nghymru yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf (16.3% yn 2011)⁸ ac mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi hawl i bartion siarad Cymraeg yn y llys:

"In any legal proceedings in Wales the Welsh language may be spoken by any party, witness or other person who desires to use it, subject in the case of proceedings in a court other than a magistrates' court to such prior notice as may be requires by rules of court..." a 22(1)⁹

Efallai, yn fwy arwyddocaol, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud Cymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.¹⁰

2 Ar gael ar-lein ar: <http://owain.vaughan.com/1535c26/#section1>.

3 C.f. http://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/society/language_education.shtml er mwyn darganfod mwy am y gamdriniaeth yn sgil y 'Welsh not' creulon.

4 Rhan 2:66; ar gael ar-lein ar: <http://www.llgc.org.uk/index.php?id=thebluebooks>.

5 Cyflwyniad ar yr Iaith Gymraeg (2012) Comisiynydd y Gymraeg, Cynhadledd Big Voice, Prifysgol Bangor.

6 Darlun Ystadegol o Sefyllfa'r Gymraeg (2011) Hywel M. Jones, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, t.13; ar gael ar-lein: <http://www.comisiynyddygyymraeg.org/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Darlun%20ystadegol%20Cymraeg.pdf>

7 Ibid.

8 Ibid. t.4

9 Ar gael yn llawn ar-lein ar: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/section/22>

10 Rhan 1, ar gael ar-lein ar: <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/enacted>.

Cymraeg yn Llysoedd Cymru

Mae adran 22 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn datgan bod modd defnyddio Cymraeg mewn achosion llys, yn amodol ar roi unrhyw hysbysiad o flaen llaw ble bod angen.¹¹ Caiff hyn ei fanylu arno yng Nghyfarwyddiadau Ymarfer y Llys. Er enghraifft, mae'r cyfarwyddyd ymarfer ar achosion sifil, sy'n anodd ei ddarganfod, yn nodi y gellir dyfarnu costau yn erbyn parti sy'n methu rhoi hysbysiad o flaen llaw o'u bwriad i siarad Cymraeg, er 'bydd yr ymarfer presennol o gynnal gwrandawriad yn gyfan gwbl yn y Gymraeg ar sail ad hoc a heb rybudd yn parhau'n ddilys pan fo pob parti... yn cytuno'.¹² Rydym o'r farn bod y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn amhriodol gan fod posibilrwydd cosbi siaradwyr Cymraeg am geisio defnyddio eu hiaith eu hunain yn y llys ac felly dylid ei ddiwygio ar frys.

Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol i holiaduron dyrannu yng Nghymru ofyn yn benodol, yn Gymraeg, os yw parti yn bwriadu siarad Cymraeg. Byddai hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb i'w wirio ar y llys a chynrychiolaeth gyfreithiol y partion, yn hytrach nag ar unigolion heb hyfforddiant cyfreithiol.

Cymhariaeth â De Affrica

Mae hawliau ieithyddol yn Ne Affrica wedi eu hymwreiddio yn eu Cyfansoddiad trawsnewidiol ar gyfer eu 11 iaith genedlaethol.¹³ Fodd bynnag, dim ond Saesneg ac Afrikaans a ddefnyddir yn y llysoedd, fel arall mae pobl ar drugaredd y gwasanaeth cyfieithu. Yn Ne Affrica, fel yn y DU, mae gofid cyffredinol ynglŷn ag ansawdd a chywirdeb gwasanaethau cyfieithu, gan gynnwys enghreifftiau ble mae cyfieithwyr wedi ystumio datganiadau tystion.¹⁴

Efallai bod hyn yn llai o broblem yng Nghymru, ble mae nifer o bobl yn y llys sy'n debygol o allu siarad Cymraeg, ond roeddem â chrym ddiddordeb clywed am gynnig yn Ne Affrica i ddatblygu rhaglen Dechnoleg Gwybodaeth sy'n cyfieithu ieithoedd cenedlaethol yn awtomatig, yn gywir a heb duedd.¹⁵ Rydym yn rhagweld y byddai adnoddau yn rhwystr ar gyfer datblygu hyn er mwyn caniatáu achosion dwyieithog yng Nghymru ar hyn o bryd, ond byddem â diddordeb mawr dilyn y datblygiad yn Ne Affrica.

Rheithgorau Dwyieithog yng Nghymru

Yn ystod ein hymweliad â Chymru yn Nhachwedd 2012 clywsom gan y Barnwr Rhanbarth Williams o Lys Sirol Caernarfon bod rhan helaeth o'r barnwyr yng Nghymru yn siarad Cymraeg rhugl a bod cyfieithu ar y pryd nawr ar gael yn llysoedd Cymru.¹⁶ Fodd bynnag, nid yw'r Gymraeg â statws cydradd â'r Saesneg tra bod siaradwyr Cymraeg yn gorfod defnyddio cyfieithwyr ac mae hyn yn adlewyrchu gwahaniaethu o hyd, er enghraifft yn ystod y misoedd diwethaf gwelwyd Diffynnydd yn cael dirwy pan wrthodwyd iddo gael ffurflenni llys Cymraeg.¹⁷

11 Ar gael ar-lein ar: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/section/22>

12 Cyfarwyddiadau Ymarfer ar Ddefnyddio'r Iaith Gymraeg mewn Achosion yn y Llysoedd Sifil yng Nghymru, ar gael ar-lein ar: <http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules/welshpd>.

13 Cyfansoddiad Gweriniaeth De Affrica, Pennod 1, adran 6, ar gael ar-lein ar: <http://www.info.gov.za/documents/constitution/1996/a108-96.pdf>

14 Communicating across cultures in South African law courts: towards an information technology solution (2008) Kashula, Mostert and Ralarala, Stellenbosch Papers in Linguistics PLUS, Cyf.36, 89-104; tudalen 95, para 4; c.f. yn y DU mae anhrefn diweddar wedi bod gyda diffyg rheoliadau ar gyfer cyfieithwyr yn y llysoedd – Court interpreter checks 'non-existent' (2012) Angus Crawford, BBC News: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-19186942>, er bod canllawiau cenedlaethol ar gyfer defnyddio cyfieithwyr: www.justice.gov.uk/courts/interpreter-guidance.

15 Ibid. tudalen 93, para.2

16 Datblygiad a mygrchwyd amdano dros amser hir, c.f. Hansard o 1874 ar-lein ar: <http://hansard.millbanksystems.com/commons/1874/jun/26/observations>.

17 Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag achos Jamie Bevan ymwelwch â gwefan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg: <http://archif.cymdeithas.org/english/>

Manteision Cynnig Rheithgorau Dwyieithog

Mae dadleuon cryf dros roi dewis i Ddiffynnydd mewn achos troseddol i wneud cais am reithgor dwyieithog, ble mae modd ei drefnu.¹⁸ Byddai rheithgor dwyieithog yn:

- Gallu deall tystiolaeth yr holl dystion yn Gymraeg neu Saesneg;
- Osgoi oedi a all ddigwydd wrth aros am gyfieithwyr i fod ar gael;
- Dirymu'r risg o 'sibrwd tseniaidd' y gall cyfieithydd wneud camgymeriad;
- Rhoi'r rheithgor mewn gwell sefyllfa i farnu hygredd datganiad y tyst;
- Llwyddo i gael dealltwriaeth fwy cyflawn o'r achos, gan nad oes modd cyfieithu rhai cysyniadau neu nid yw cyfieithiad yn llwyr gyfleu'r cyd-destun diwylliannol;
- Gallu siarad yn hyderus yn yr ystafell rheithgor ym mha bynnag iaith mae'r rheithwyr yn fwyaf cyfforddus ynddo;
- Cyfleu cydnabyddiaeth lawn o statws cydradd y Gymraeg, gan gymryd camau i wneud yn iawn am y cefndir o orthrwm.

Anfanteision Rheithgorau Dwyieithog

Ar y llaw arall gall fod problemau sylweddol gyda chyflwyno rheithgorau dwyieithog:

- Gan fod llai nag hanner yr 3.06 miliwn o bobl sy'n byw yng Nghymru yn siarad Cymraeg rhugl, byddai hyn yn lleihau'r nifer o reithwyr posib a allai gymryd rhan mewn rheithgor dwyieithog ac mae rheithwyr i fod i gael eu dewis ar hap o'r gofrestr etholiadol;¹⁹
- Efallai na all rheithgor dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg adlewyrchu'r gymdeithas Gymreig gyfan, ble mae'n parhau'n iaith leiafrifol;
- Mae rhai rhannau o Gymru â chyfran llawer llai o siaradwyr Cymraeg nag eraill ac felly byddai'n anodd iawn dod o hyd i reithgor dwyieithog lleol. Yn ogystal, byddai'n afresymol disgwyl i unai reithwyr neu dystion deithio ar draws Cymru er budd y Ddiffynnydd.²⁰
- Mewn gwirionedd mae llawer llai o bobl na'r nifer sy'n cydnabod eu hunain eu bod yn siaradwyr Cymraeg yn y cyfrifiad yn llwyr ddwyieithog. Er enghraifft, gall pobl anghofio llawer o'r iaith y gwnaethant ddysgu yn yr ysgol neu sydd â geirfa lefel ysgol yn unig a byddai'n anodd profi hyn cyn i'r treial ddechrau.

Mae nifer o'r myfyrwyr yn ein grŵp yn siarad ail iaith ac rydym am bwysleisio hyd yn oed ble mae'n debyg bod person yn rhugl mewn dwy iaith, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu 'dwyieithrwydd'. Gall fod yn anodd newid yn sydyn rhwng un iaith a'r llall - cysyniad a adwaenir fel 'cyfnwid codau'.²¹ Fodd bynnag, efallai bod siaradwyr Cymraeg yn fwy cyfarwydd â hyn na'r rhan fwyaf o bobl ag ail iaith gan fod cyfryngau, dogfennau swyddogol ac arwyddion ffyrdd Cymraeg a Saesneg yn gyffredin yng Nghymru.

18 C.f. Bilingual Lawmaking and Justice: a report on the lessons for Wales from the Canadian experience of bilingualism (2001) Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol; t.10 ymlaen

19 Gwybodaeth ynglŷn â phoblogaeth Cymru ar gael oddi ar Wales Online (Gorffennaf 2012): <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2012/07/16/population-of-wales-hits-3-06-million-according-to-census-data-91466-31404604/>; mae'r rheolau ar gyfer dewis rheithgor wedi eu gosod yn a3 Deddf Rheithgorau 1974: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/23>. Ar y llaw arall, c.f. Random selection, linguistic rights and the jury trial (2002) Parry, Criminal Law Review 805.

20 Ibid. mae a 2(2) o'r Ddeddf Rheithgorau 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried cyfleustra a phellter teithio wrth wysio rheithwyr

21 C.f. Linguistic Code-Switching (2009) Gol. Bullock a Toribio, Cambridge University Press

Cymhariaeth Ryngwladol

Mae cymariaethau rhyngwladol yn y maes yma'n ddefnyddiol. Er enghraifft yn Iwerddon, lle mae'r Wyddeleg yn iaith gyfansoddiadol swyddogol ac 41.4% o bobl yn nodi eu bod yn siarad Gwyddeleg,²² yn achos *Ma Carthaighe v Eire [1999]* dyfarnwyd bod dim hawl cael rheithgor sy'n siarad Gwyddeleg.

Ar y llaw arall, yn New Brunswick, Canada, ble mai Ffrangeg a Saesneg yw'r ieithoedd swyddogol a thua 30% o bobl yn siarad Ffrangeg, mae hawl cael rheithgor dwyieithog.²³



Argymhelliad

Yn yr achos yma mae tua hanner ein grŵp yn teimlo'n gryf bod rheithgorau dwyieithog yn fater o gydraddoldeb gwleidyddol sylfaenol ac felly dylai'r dewis i wneud cais am reithgor dwyieithog fod ar gael. Ar y llaw arall, mae hanner arall ein grŵp o'r farn y byddai heriau gweithdrefnol yn y maes yn rhai hynod o anodd ei goresgyn ac fe allai arwain at oedi mewn achosion.

Cyhoeddwyd papur ymgynghori yn 2005 oedd yn archwilio rheithgorau dwyieithog ac ym Mawrth 2010 cyhoeddodd y Llywodraeth na fyddent yn mynd yn eu blaen â rheithgorau dwyieithog gan y byddai'n groes i'r egwyddor o ddewis ar hap.²⁴

Rydym yn argymhell y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ail-ystyried eu penderfyniad a chomisiynu peilot, mewn rhanbarth o Gymru sydd â phoblogaeth uchel o siaradwyr Cymraeg, i brofi effeithiolrwydd y cynnig ymhellach. Rydym yn argymhell y dylai dogfennau Gwŷsio Rheithgor yng Nghymru ofyn i dderbynyddion yn benodol a fyddent yn hyderus i ymgymryd ag achos dwyieithog.

Defnydd o'r Gymraeg yn y Llysoedd Uwch

Pan apelwyd Williams v Cowell i'r uwch driwlynys, gwnaeth yr hawlydd gais i'r triwlynys ddefnyddio ei ddisgresiwn i ganiatáu'r achos gael ei gynnal yng Nghymru, fel bod modd ei gynnal yn ddwyieithog, fel ag yr oedd y gwrandawriad cyntaf, neu ar y llaw arall yn Gymraeg yn Llundain.²⁵ Gwrthododd Llywydd y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth y ddau gais gan nodi bod dim tystiolaeth y byddai Mr Williams o dan anfantais petai'r apêl yn cael ei gynnal yn Saesneg.

Yn ystod ein hymweliad â Bangor roeddem yn lwcus i glywed gan Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, a nododd ei bod yn bwysig i iaith iachus gael statws yn y gymuned ac yn y llysoedd. Yn ein barn ni, petai'r penderfyniad yn Cowell yn cael ei wneud heddiw, rydym yn gobeithio y byddai'n cael ei wneud yn wahanol ac y byddai'r llysoedd, hyd at a gan gynnwys y Llys Apêl, yn ystyried eistedd yng Nghymru. Rydym o'r farn bod hyn yn arbennig o bwysig ble mae achos wedi dechrau yn yr iaith Gymraeg, a all godi disgwyliad dilys y byddai'n

22 Yn ol cyfrifiad 2011, mwy o ddadansoddi ar gael ar-lein:

<http://www.irishtimes.com/newspaper/ireland/2012/0330/1224314100321.html>.

23 C.f. Bilingual Lawmaking and Justice, a report on the lessons for Wales from the Canadian experience of bilingualism (2001) Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol; ar gael ar-lein ar: <http://www.scribd.com/doc/91769025/Bilingual-Lawmaking-e> a Legislative Drafting and Language in Canada (2007) Lortie and Bergeron QC, Oxford University Press, Statute Law Review, 28(2), 83-118.

24 "The Use of Bilingual (English and Welsh-speaking) Juries in Certain Criminal Trials in Wales" (2005) Office for Criminal Justice Reform and Written Ministerial Statements (Mawrth 2010) Mr Jack Straw, ar gael ar-lein ar: <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200910/cmhansrd/cm100309/wmstext/100309m0001.htm>

25 Williams v Cowell (Stables no.1) [1999] WL 477829

parhau yn yr un ffordd, gan ei gwneud yn afresymol i lys uwch wrthod ei ddisgresiwn yn y fath sefyllfa. Fel nodwyd gan Syr Emyr Jones Parry, “wrth i ddatganoli ddatblygu, mae’n rhaid rhoi ystyriaeth lawn i rôl a statws y farnwriaeth yng Nghymru.”²⁶

Yn ogystal, fel y clywsom gan yr Ustus Roderick Evans, mae teimlad cryf yng Nghymru bod yr amser wedi dod i Gymru gael llysoedd apeliadol ei hun, gan y byddai’r isadeiledd cyfreithiol hwn yn ymateb i anghenion Cymru yn dilyn sefydlu Cynulliad Cymru a’r cyfleoedd cynyddol i gyfreithwyr Cymreig ymarfer a datblygu yn eu cenedl eu hunain.

Yr Hawl i Siarad Cymraeg yn y Gweithle

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cynnwys y ‘rhyddid’ i siarad Cymraeg.²⁷ Er, nid yw rhyddid â’r un warchodaeth a hawl, megis yr hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu’r Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae iaith yn un o’r 20 maes datganoledig y gall y Cynulliad ddeddfu arno, ond mae rheoliadau yn y maes wedi canolbwyntio ar y sector gyhoeddus hyd yn hyn.²⁸ Mae Strategaeth y Gymraeg yn nodi:

“...y gweithle yw un o’r meysydd allweddol sy’n pennu pa iaith y mae pobl yn ei defnyddio...[mae] gan y gweithle rôl o ran ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio’r iaith mewn agweddau eraill ar eu bywydau. Nodwyd hefyd fod datblygu statws yr iaith yn y gweithle yn bwysig o safbwynt pwysleisio gwerth addysg cyfrwng Cymraeg.”²⁹

Yn hanesyddol os oedd person am ddadlau y dylent gael yr hawl i siarad Cymraeg yn y gwaith yna byddai’n rhaid iddynt ddadlau ar sail gwahaniaethu hiliol. Yn *Cowell v Williams* yn 1998,³⁰ dyfarnodd tribiwnlys cyflogaeth yn unfrydol bod diswyddo cogydd am gyfathrebu ag aelod arall o staff yn Gymraeg yn gwahaniaethu ar sail hil uniongyrchol, gan fod gwrthod rhoi hawl iddo siarad yn ei famiaith yn ei roi o dan anfantais, er ei fod hefyd yn gallu siarad Saesneg. Yn ogystal, pan fynodd cangen o Thomas Cook ym Mangor (ardal ble mae 70% o bobl yn siarad Cymraeg) y dylai trafodaethau yn ymwneud â gwaith gyda chyd-weithwyr gael eu cynnal yn Saesneg, dywedodd Cyfarwyddwr y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru, Mr Chris Myant, bod polisi Thomas Cook ‘fwy na thebyg’ yn groes i’r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.³¹

Mae’n ymddangos i ni fod y materion yn yr achosion hyn yn rhai o gydraddoldeb ieithyddol yn hytrach na chydaddoldeb hiliol. Rydym o’r farn ar hyn o bryd bod risg y gall triniaeth lawdrwm tuag at fusnesau preifat rannu’r gymuned, pan gall pwysau gwleidyddol gan Gomisiynydd y Gymraeg a’r gymuned Gymraeg gael effaith rymus.

Mewn cyd-destun cyflogaeth byddem yn annog y llysoedd i drin cyfyngiad ar ryddid ieithyddol fel ei fod yn torri’r berthynas o ffydd a hyder rhwng y cyflogwr a’r gweithiwr, gan ei bod yn ymddangos bod y cyfyngiadau hyn yn cael eu gosod fel dulliau amhriodol o reolaeth. Yn y dyfodol efallai daw amser pan fydd hawliau ieithyddol yn cael eu diogelu ymhellach, er enghraifft drwy roi effaith iddynt yn yr un ffordd â hawliau dynol.

26 Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan (2009), para 3.9.25; ar gael ar-lein ar: <http://wales.gov.uk/docs/awc/publications/091118thereportcy.pdf>

27 Adran 111, ar gael ar-lein ar: <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/part/6/enacted>

28 Ibid, Atodlenni 5 – 8

29 Iaith fyw: iaith byw (Cynllun Gweithredu 2012-13) Strategaeth y Gymraeg 2012-2017, t.12; ar gael ar-lein ar: <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/120430wlsactionplan1213cy.pdf>

30 *Cowell v Williams* (Stables No.2) [2001] no. EAT/0904/97

31 *Thomas Cook Welsh rule ‘unlawful’* (2007) BBC News, <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/6739935>

Cymraeg a Mynediad i Wasanaethau

Os yw'r Gymraeg i gael statws cydradd â'r Saesneg yna mae angen i wasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â ffurflenni gwladol, fod ar gael yng Nghymraeg a Saesneg. Hysbyswyd ni gan Gomisiynydd y Gymraeg bod pryder yng Nghymru ar hyn o bryd nad yw'n ofynnol i staff y GIG ymateb i aelodau'r cyhoedd yn Gymraeg, os oes cais am hynny. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn hyrwyddo cydraddoldeb y Gymraeg drwy wasanaethau meddygol ar-lein, gan ganolbwyntio ar:

- Plant o dan saith mlwydd oed sydd wedi eu magu mewn cartrefi sy'n siarad Cymraeg;
- Yr henoed sydd ond yn gallu siarad Cymraeg;
- Pobl ag anawsterau dysgu; a
- Pobl â phroblemau iechyd meddwl.³²

Mae hyn yn awgrymu y gall pobl ond cael mynediad i wasanaethau iechyd yng Nghymraeg os ydynt mewn sefyllfa fregus dros ben. Rydym o'r farn y dylai siaradwyr Cymraeg gael mwy o hawliau na hyn a chael mynediad i wasanaethau cyfrwng Cymraeg drwyddi draw. Rydym hefyd yn bryderus bod y camau hyn yn ymddangos fel eu bod yn cael eu gwneud gan wasanaeth TG y GIG sy'n awgrymu bod angen i siaradwyr Cymraeg gyfathrebu drwy ysgrifennu ar-lein, gan wahaniaethu yn erbyn pobl â lefel isel o lythrennedd a gallu TG.

Wrth i eirfa dechnegol ychwanegol gael eu datblygu yn Gymraeg, byddem yn hoff o weld mwy o ffurflenni dwyieithog mewn meysydd megis y GIG i gyfannu geiriau newydd yn gyflym i eirfa siaradwyr Cymraeg.

Casgliad

Gyda chynnydd mewn datganoli rydym yn gweld symudiad oddi wrth gyfiawnhad ymarferoldeb i dderbyn nawr bod y Gymraeg yn rhan sylfaenol o hunaniaeth Gymreig. Yn ein barn ni mae'r amser wedi dod i farnwr/es Cymreig y Goruchaf Lys ymuno â'r Ustus o Ogledd Iwerddon a'r ddau o'r Alban sydd â seddi ar fainc y Goruchaf Lys.

Rydym ar ddeall na fydd swydd wag yn y Goruchaf Lys am sawl blwyddyn yn dilyn y cyfnod recriwtio presennol ac felly rydym yn cefnogi argymhelliad yr Ustus Roderick Evans, y byddai modd yn y cyfamser i'r Goruchaf Lys gynnig sedd dros dro i uwch farnwr Cymreig, os ydynt yn dyfarnu ar achos Cymreig ag arwyddocâd cyfansoddiadol a phwysigrwydd cyhoeddus i Gymru.³³



32 Am fwy o wybodaeth ymwelwch â'u gwefan: <http://www.wales.nhs.uk/nwis/tudalen/53437>

33 A allai fod wedi cael ei wneud, er enghraifft, yn yr achos diweddar ynglŷn â'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru); c.f. <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-19886579>.

